Rhaglen Gyflawn

# Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
# North Wales Corporate Joint Committee

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD GWENER, 22AIN MAWRTH, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**(Am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni)**

Pwynt Cyswllt

**Annes Sion**

**01286 679490**

**AnnesSion@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 15 Mawrth 2024)

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**

Aelodau Cyngor

Cyng. Jason McLellan- Cyngor Sir Ddinbych
Cyng. Llinos Medi Huws - Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. Charlie McCoubury - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyng. Mark Pritchard - Cyngor Wrecsam
Cyng. Ian Roberts - Cyngor Sir y Fflint
Cyng. Dyfrig L Siencyn - Cyngor Gwynedd

Aelod Eryri

Cyng. Tim Jones – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Prif Swyddogion

Dafydd Gibbard - Cyngor Gwynedd – Prif Weithredwr y Cyd-Bwyllgor
Dylan Williams - Cyngor Sir Ynys Môn
Rhun ap Gareth - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Neal Cockerton - Cyngor Sir y Fflint
Graham Boase - Cyngor Sir Ddinbych
Ian Bancroft - Cyngor Wrecsam
Emyr Williams – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Swyddogion Statudol

Dewi Aeron Morgan – Prif Swyddog Cyllid
Iwan G Evans – Swyddog Monitro

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** 4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2024 fel rhai cywir.

**5. DIWEDDARIAD AR GYNNYDD O DROSGLWYDDO SWYDDOGAETHAU I'R CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG, A THREFNIADAU CYCHWYNNOL AR GYFER YMESTYN SECONDIAD CYFREDOL A PHENODIAD DILYNOL Y PRIF WEITHREDWR** 7 - 20

I gyflwyno’r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd o sefydlu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ac i weithredu ei ddyletswddau a’i swyddogaethau statudol. A nodi’r cynllun arfaethedig mewn perthynas â threfniant secondiad presennol Prif Weithredwr y CBC sy'n dod i ben ar 31 Mawrth, 2024 a'r cynnig ar gyfer penodiad
o’r 1 Gorffennaf, 2024.

**6. CYNLLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU - ACHOS DROS NEWID DRAFFT** 21 - 23

I gyflwyno'r 15 amcan allweddol o fewn y Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol ar gyfer Gogledd Cymru - Achos dros y Newid drafft.

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**
**26/01/24**

**Yn bresennol:** Cadeirydd: Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd)

**Y Cynghorwyr:** Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych), Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Tim Jones (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

**Prif Swyddogion:** Geraint Owen (Cyngor Gwynedd), Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Gary Williams (Cyngor Sir Ddinbych) ac Emyr Williams (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

**Swyddogion Statudol**
Dewi Morgan (Prif Swyddog Cyllid) ac Iwan G Evans (Swyddog Monitro).

**Swyddogion eraill yn bresennol**
Alwen Williams (Prif Weithredwr Dros Dro y CBC), Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

- Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn) gyda'r Cynghorydd Gary Pritchard yn dirprwyo;
- Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych) gyda Gary Williams yn dirprwyo;
- Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd) gyda Geraint Owen yn dirprwyo.

Croesawyd y dirprwyon i'r cyfarfod.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd, 2023, fel rhai cywir.

**5. CYLLIDEB 2024/25 CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD AC ARDOLL AR AWDURDODAU CYFANSODDOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dewi Morgan, Prif Swyddog Cyllid.

**PENDERFYNWYD:**

1. **Cymeradwyo Cyllideb 2024/5 Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) y Gogledd fel y'i cyflwynwyd yn yr atodiad i'r adroddiad. Cymeradwyo'r gyllideb fel y nodir isod:-**

| Cynllunio Strategol | Trafnidiaeth | Cydbwyllgor Corfforedig | Cyfansw m Cyllideb |
|---|---|---|---|
| £ | £ | £ | £ |
| 371,250 | 182,750 | 210,820 | 764,820 |

2. **Cymeradwyo'r ardoll ar yr awdurdodau cyfansoddol fel y nodir isod:-**

| | Cynllunio Strategol | Swyddogaethau eraill | Cyfanswm Ardoll |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (58,510) | (65,370) | (123,880) |
| Cyngor Sir Ddinbych | (52,080) | (55,220) | (107,300) |
| Cyngor Sir y Fflint | (83,780) | (88,830) | (172,610) |
| Cyngor Gwynedd | (53,870) | (67,260) | (121,130) |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (37,230) | (39,480) | (76,710) |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (73,010) | (77,410) | (150,420) |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | (12,770) | | (12,770) |
| **Cyfanswm Ardoll** | **(371,250)** | **(393,570)** | **(764,820)** |

**TRAFODAETH**

**1. <u>Y Gyllideb</u>**

Nodwyd bod swm sylweddol o arian yn cael ei glustnodi ar gyfer yr elfen Cynllunio Strategol a holwyd a olygai hynny wneud i ffwrdd â rhywfaint o'r gwaith mae'r cynghorau yn gyflawni yn unigol ar hyn o bryd, a thrwy hynny greu arbedion i'r cynghorau, neu a olygai fwy o waith a mwy o gost i'r cynghorau. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Ei bod yn bwysig dod o hyd i ffordd o fedru cynrychioli gwerth am arian i'r awdurdodau yn lleol o fodolaeth y Cyd-bwyllgor.
- Nad oedd yn hollol glir eto beth fyddai'r amcan hirdymor i anelu ato o ran Llywodraeth Cymru, ond yn sicr roedd cyfleoedd yma i gydweithio'n fwy effeithiol yn rhanbarthol ar rai elfennau o waith. E.e. roedd trafodaethau mewn lle ynglŷn â'r posibilrwydd o gydweithio'n rhanbarthol ar faterion megis caffael ynni er mwyn gweld oes ffordd o fod yn fwy effeithiol yn ariannol, fel bod yr arbedion yn bwydo yn ôl i'r cynghorau yn lleol ar gyfer gwasanaethau craidd.
- Ei bod yn anodd dweud ar hyn o bryd, yn enwedig o ochr Cynllunio Strategol, beth fydd y budd i'r rhanddeiliaid penodol, ond bod yna elfennau o waith ar hyn o bryd sy'n cael ei ddyblygu ar draws y siroedd ar sail dystiolaethol i'w cynlluniau unigol hwy eu hunain.
- Y gobeithid, wrth ganoli rhai rhannau o'r dystiolaeth yna, y byddai'n haws wedyn i gael tystiolaeth ar lefel leol drwy weithio'n rhanbarthol.

- Mai amser a ddengys beth fydd sgil-effaith hynny o ran unrhyw effeithlonrwydd penodol yn yr ardaloedd o fewn y rhanbarth, ond yn sicr, dyna fyddai'r uchelgais, sef ein bod mewn sefyllfa o fedru rhannu gwybodaeth a thystiolaeth er mwyn gwneud y prosesau lleol yn haws.

Nodwyd ei bod yn bwysig cadw golwg ar yr elfen yma.

Mynegwyd pryder ynglŷn â'r bwriad i roi amcangyfrif chwyddiant o 6% ar gyfer cyflogau yn 2024/25, ond esboniwyd bod hynny wedi'i ariannu allan o reserfau ac na fyddai yna unrhyw gynnydd yng nghyfraniadau'r partneriaid.

Nodwyd bod yna ymdeimlad o fewn y cynghorau bod y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn rhywbeth dewisol, yn hytrach nag yn gyfrifoldeb deddfwriaethol, a rhybuddiwyd y bydd llawer o gynghorwyr yn cadw golwg manwl ac yn holi cwestiynau wrth i waith y Cyd-bwyllgor fynd rhagddo.

Nododd y Cadeirydd fod hynny'n gwbl ddealladwy.  Ychwanegodd y cynhelid cyfarfod buan rhwng cadeiryddion ac is-gadeiryddion pob cyd-bwyllgor corfforedig ar draws Cymru gyda'r gweinidogion i drafod cynnydd o ran sefydlu'r cyd-bwyllgorau, ac y byddai hynny'n gyfle i adlewyrchu natur y drafodaeth yn y cyfarfod hwn.

**2. <u>Ardoll</u>**

Holwyd pryd y bwriedid newid y cyfraniadau ariannol yn unol â'r newid mewn poblogaeth. Mewn ymateb, eglurwyd:-

- Y defnyddid yr un ffigurau poblogaeth ag a ddefnyddiwyd yn y setliad ar gyfer 2024/25.
- Y defnyddiwyd rhagamcanion y flwyddyn ddiwethaf a'r flwyddyn cynt gan nad oedd Awdurdod y Parc wedi'i gynnwys yn y ffigurau setliad, ond gan nad oedd y rhagamcanion wedi'u diweddaru eleni, yr unig opsiwn oedd defnyddio'r ffigurau setliad, gan addasu'r ffigurau yn pro-rata ar gyfer Awdurdod y Parc, a dyna fyddai'n digwydd o hyn allan hefyd.

Mewn ymateb i gwestiwn pellach, eglurwyd y defnyddid ffigurau setliad sy'n cael eu gosod a'u haddasu bob blwyddyn gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00 a daeth i ben am 14:35.

__________________________________

(Cadeirydd)

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

22 Mawrth, 2024

| | |
|---|---|
| TEITL: | Diweddariad ar gynnydd o drosglwyddo swyddogaethau i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, a threfniadau cychwynnol ar gyfer ymestyn secondiad cyfredol a phenodiad dilynol y Prif Weithredwr |
| AWDUR: | Alwen Williams, Prif Weithredwr dros dro y CBC (Rhan A)<br>Geraint Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cyngor Gwynedd (Rhan B) |

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd o sefydlu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ac i weithredu ei ddyletswyddau a'i swyddogaethau statudol.

1.2. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r cynllun arfaethedig mewn perthynas â threfniant secondiad presennol Prif Weithredwr y CBC sy'n dod i ben ar 31 Mawrth, 2024 a'r cynnig ar gyfer penodiad o'r 1 Gorffennaf, 2024.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

RHAN A:

2.1. Nodi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith i sefydlu CBC y Gogledd, gan gynnwys datblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol (RTP) a'r Cynllun Datblygu Strategol (SDP) i weithredu'r dyletswyddau a swyddogaethau statudol y CBC; a sefydlu Prosiect Gweithredol ar gyfer CBC y Gogledd.

RHAN B:

2.2. I gytuno ar estyniad i'r trefniant presennol, ar gyfer secondiad rhan-amser Alwen Williams i rôl Prif Weithredwr CBC, hyd at ddiwedd Mehefin 2024.

2.3. Yn amodol ar gwblhau'n ffurfiol yr ymgynghoriad TUPE cyfredol gyda staff Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, i gadarnhau trosglwyddiad arfaethedig a phenodi Alwen Williams fel Prif Weithredwr y Cyd-bwyllgor Corfforedig o 1 Gorffennaf, 2024.

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Ym mis Rhagfyr 2021/Ionawr 2022, bu'r Cabinet a Phwyllgorau Gwaith ym mhob un o'r chwe Awdurdod Lleol gytuno, mewn egwyddor, y dylid trosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru drwy gytundeb dirprwyo i'r CBC. Bydd penderfyniadau yn Rhan A a B yn galluogi'r trosglwyddiad hwn i gychwyn a'i gwblhau. Mae'r fframwaith statudol a sefydlu'r CBC yn golygu bod angen symud ymlaen gyda'r trosglwyddiad arfaethedig.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae sefydlu'r CBC yn ofyniad cyfreithiol ac mae amserlenni i gyflawni'r dyletswyddau statudol a ragnodir yn y ddeddfwriaeth - i gynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol a Chynllun Datblygu Strategol rhanbarthol yn pwyso. Mae **Atodiad 1** yn rhoi diweddariad o'r eitemau hyn. Mae'r Achos dros y Newid ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol yn eitemau ar wahân i'w drafod yn y cyfarfod hwn.

4.2. Mae'r cynnydd hyd yn hyn wedi'i gyflawni drwy'r Prif Weithredwr rhan-amser dros dro, secondiad o Lywodraeth Cymru, gyda gwasanaeth cyfreithiol ac ariannol yn cael ei ddarparu gan Gyngor Gwynedd i gyflawni cyfrifoldebau'r swyddogion statudol dros y CBC. Mae'r argymhelliad yn yr adroddiad hwn yn ceisio ymestyn y trefniadau hyn er mwyn caniatáu'r cynllun arfaethedig a'r amserlen ar gyfer trosglwyddo'r Cynllun Twf Gogledd Cymru i'r CBC y Gogledd gael ei gwblhau.

4.3. O dan Reoliadau Llywodraeth Cymru, wrth ddatblygu cynigion a chyflawni ei dyletswyddau, bydd y CBC yn ddarostyngedig i'r Ddeddf Cydraddoldeb, Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, safonau iaith o dan Fesur y Gymraeg 2011, a deddfwriaeth eraill, yn yr un modd ag awdurdodau lleol.

## 5. RHAN A – CYNLLLUN AC AMSERLEN ARFAETHEDIG

5.1. Er mwyn trosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais, gan gynnwys y Cynllun Twf a'r Swyddfa Rheoli Portffolio i'r CBC, bydd pedair ffrwd waith annibynnol yn cael eu sefydlu dan awenau Bwrdd Prosiect Gweithredol CBC y Gogledd.

5.2. Mae'r isod yn rhoi amlinelliad o'r ffrydiau gwaith allweddol a'u pwrpas:

| Ffrwd gwaith | Pwrpas | Cerrig Milltir allweddol |
|---|---|---|
| Cytundeb ar Drosglwyddo Cyfreithiol / Llywodraethu | Sicrhau bod y cytundebau a'r caniatadau angenrheidiol sydd eu hangen i gyflawni'r trosglwyddiad yn cael eu sicrhau a'u cytuno. | • Sicrhau cytundeb gan Cabinet a Phwyllgorau Gwaith y 6 Awdurdod Cyfansoddol a phartïon GA2 i drosglwyddo.<br>• Cytundeb y ddwy lywodraeth i drosglwyddo'r Cynllun Twf i'r CBC ynghyd a throsglwyddo |

| | | |
|---|---|---|
| | Sicrhau bod y trefniadau a'r cytundebau llywodraethu angenrheidiol mewn lle o fewn y CBC ar gyfer cyflawni'r Cynllun Twf, gan gynnwys rôl ymgynghorwyr o fewn y Bwrdd Uchelgais Economaidd. | darpariaeth y Cynllun Twf a thynnu i lawr y cyllid i'r CBC.<br>• Cytundeb ar barhad y model ariannu presennol ar gyfer y Cynllun Twf.<br>• Cytundeb ar y rhyngberthynas ôl-drosglwyddo rhwng y CBC a'r Cynghorau Cyfansoddol.<br>• Cytundeb ar rôl ymgynghorwyr presennol y Bwrdd Uchelgais o fewn y CBC.<br>• Cytundeb ar sut y bydd rôl datblygu'r economi rhanbarthol ehangach y CBC yn cael ei llunio a'i chydfodoli â swyddogaethau presennol yr Awdurdodau Lleol yn y maes hwn. |
| Pobl ac Adnoddau Dynol | Bwrw ymlaen gyda'r broses TUPE, gan gynnwys ymgynghori gyda staff, sicrhau bod polisïau a phrotocolau staff mewn lle er mwyn sicrhau trosglwyddiad llwyddiannus i'r CBC. | • Polisïau a phrosesau perthnasol a fabwysiadwyd gan y CBC.<br>• Cynnal ymgynghoriad TUPE.<br>• Trosglwyddodd llwyddiannus staff i'r CBC. |
| Cyllid, Prosesau a Systemau | Galluogi trosglwyddo cyllid y Cynllun Twf a threfniadau ariannu prosiectau, yn ogystal â sicrhau bod pob proses a system gweithredol mewn lle ar gyfer trosglwyddo'r Swyddfa Rheoli Portffolio i'r CBC. | • Cymeradwyaeth gan y llywodraeth ar gyfer trosglwyddo cyllid y Cynllun Twf.<br>• Prosesau a systemau angenrheidiol mewn lle cyn trosglwyddo cyllid y Cynllun Twf a staff y Swyddfa Rheoli Portffolio. |
| Cyfathrebu ac Ymgysylltu | Sicrhau bod staff a rhanddeiliaid allweddol yn cael eu cyfathrebu â nhw a'u cynnwys drwy gydol y broses. | • Cytuno ar y Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu.<br>• Cyfathrebu rheolaidd cyn ac ar ôl trosglwyddo.<br>• Cwblhau ymgynghoriad TUPE. |

5.3. Bydd pob ffrwd gwaith yn darparu rhaglen waith a gytunwyd arni a gefnogir gan linell amser o weithgareddau i gyflawni'r trosglwyddiad o staff a swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais Economaidd i'r CBC y Gogledd ar 1 Gorffennaf, 2024. Gan adrodd yn uniongyrchol i CBC y Gogledd, bydd y bwrdd yn rhoi diweddariadau rheolaidd ar gynnydd tuag at weithredu. Dan gadeiryddiaeth Alwen Williams, bydd swyddogion allweddol o'r Swyddfa Rheoli Portffolio a Chyngor Gwynedd yn eistedd ar y bwrdd prosiect i gynllunio a gweithredu'r broses drosglwyddo. Bydd cyfarfod cyntaf y bwrdd yn cael ei gynnal ganol mis Mawrth.

5.4. Caiff adnoddau i gwrdd â nifer y gweithgareddau sydd angen ei weithredu ar gyfer pecyn cynhwysfawr o drefniadau pontio, cynnal busnes fel arfer a'r cynnydd yng ngweithgareddau cydymffurfio'r CBC, eu rheoli trwy secondiad gan Lywodraeth Cymru, a chyfran amser Prif Weithredwr dros dro y CBC. Mae cymorth hefyd yn cael ei ddarparu drwy Swyddog 151 a Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd, ynghyd a'r timau Cyfreithiol a Chyllid.

5.5. Fel y nodir uchod, mae'r 1af o Orffennaf wedi ei adnabod fel y dyddiad targed amodol ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Fodd bynnag, gall nifer o ffactorau effeithio ar y dyddiad hwn, gan gynnwys yr angen am gytundeb partner a llywodraeth i drosglwyddo'r Cynllun Twf; gofynion gwneud penderfyniadau ac amserlenni, cyfyngiadau capasiti mewnol ac ystyriaethau TUPE. Mae angen i benderfyniadau allweddol bod mewn lle i gyflawni'r trosglwyddiad a gall hyn arwain at rai meysydd yn cael eu trosglwyddo yn ystod cyfnod yr Hydref 2024.

6. RHAN B - YMESTYN Y SECONDIAD A'R TREFNIADAU AR GYFER PENODI'R PRIF WEITHREDWR

6.1. Cefndir

6.1.1 Yn ei gyfarfod ar 22 Gorffennaf, 2022, bu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd adolygu rôl y Prif Weithredwr ac, ar ôl ystyried yr opsiynau, penderfynwyd cyflwyno cais i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ryddhau ei Gyfarwyddwr Portffolio yn rhan o amser i gyflawni rôl Prif Weithredwr y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

6.1.2 Dewiswyd yr opsiwn o gyflwyno'r cais i'r Bwrdd Uchelgais oherwydd y tebygrwydd y byddai'r Bwrdd Uchelgais yn cael ei ymgorffori o fewn y CBC, y byddai cost sylweddol uwch pe byddai swydd Prif Weithredwr annibynnol yn cael ei chreu, a chan nad oedd amser yn caniatáu i un o'r 6 Prif Weithredwr awdurdod lleol oruchwylio datblygiad y CBC.

6.1.3 Adroddwyd ar y pryd fod y penderfyniad mewn egwyddor, i drosglwyddo'r Bwrdd Uchelgais i'r CBC, eisoes wedi'i wneud gan y Cynghorau ac, yn dilyn y newidiadau deddfwriaethol, y byddai'n bosibl ymgymryd â'r broses hon dros y misoedd canlynol. Fel rhan o unrhyw drosglwyddiad, byddai statws holl Staff y Swyddfa Rheoli Portffolio yn cael sylw.

6.1.4 Byddwch yn cofio ei fod yn ofynnol i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gymeradwyo rhyddhau'r Cyfarwyddwr Portffolio cyn i'r CBC wneud y penderfyniad i benodi Prif Weithredwr Dros Dro.

6.1.5 Gwnaed hyn yng nghyfarfod o'r Bwrdd Uchelgais ar 30 Medi, 2022 pan gytunwyd i ryddhau'r Cyfarwyddwr Portffolio yn rhan o amser i gyflawni rôl Prif Weithredwr y CBC ar sail secondiad.

6.1.6 O ganlyniad, cymeradwyodd y CBC, yn ei gyfarfod ar 7 Hydref, 2022 benodiad Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio'r Bwrdd Uchelgais Economaidd, fel Prif Weithredwr rhan-amser, ar sail secondiad, nes y byddai'r swydd yn cael ei hadolygu gan y CBC cyn diwedd y flwyddyn ariannol 2022/23.

6.1.7 Daeth y trefniant dros dro hwn, lle bu Alwen Williams gyflawni'r rôl Prif Weithredwr y CBC am ddau ddiwrnod yr wythnos yn weithredol o 10 Hydref, 2022.

6.1.8 Yn sgil y ffaith bod sylw pellach ei angen ar nifer o faterion critigol cyn i'r CBC allu penodi Prif Weithredwr yn barhaol yn parhau, e.e. trosglwyddiad tebygol staff i gyflogaeth y CBC, ail-ymwelwyd â'r penderfyniad a wnaed yng nghyfarfod cynhaliwyd ar 7 Hydref, 2022 yn ystod cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor ar 24 Mawrth a 27 Hydref, 2023 gan roedd angen adolygu'r cyfnod secondiad.

6.1.9 Yn y ddau gyfarfod, a gyda chytundeb y Bwrdd Uchelgais i ymestyn y secondiad, cymeradwywyd estyniad i benodiad Alwen Williams fel Prif Weithredwr Dros Dro. Roedd y penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod ar 27 Hydref, 2023 yn ymestyn y cytundeb hyd at 31 Mawrth, 2024.

6.2. Sefyllfa Dros Dro

6.2.1 Mae Rhan A o'r adroddiad hwn yn nodi bod gwaith i'w gwblhau yn parhau cyn y bydd modd sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn ffurfiol a phenodi Prif Weithredwr yn barhaol. Ar y sail honno, mae angen i'r CBC sicrhau Prif Weithredwr Dros Dro am gyfnod pellach tan 30 Mehefin, 2024.

6.2.2 Cyflwynwyd adroddiad i gyfarfod o'r Bwrdd Uchelgais ar 15 Mawrth, 2024 yn gofyn am gytundeb i ymestyn y cyfnod y mae'n barod i ryddhau ei Gyfarwyddwr Portffolio. Gellir adrodd ar ymateb y Bwrdd Uchelgais i'r cais yma ar lafar yng nghyfarfod y CBC cyn ystyried yr eitem hon.

6.2.3 Fe'ch atgoffir bod y Bwrdd Uchelgais, trwy Gyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Lletya, yn parhau fel cyflogwr contractwrol Alwen Williams, tra bod y CBC yn ad-dalu'r Bwrdd Uchelgais am gostau uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r secondiad. Rhoddwyd awdurdod i Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd wneud y trefniadau angenrheidiol o fewn hyblygrwydd cyllideb y CBC.

6.3. Trefniadau Trosglwyddo TUPE

6.3.1 Fel y nodwyd ym mharagraff 5.3 (Rhan A) o'r adroddiad hwn, adnabuwyd 1 Gorffennaf, 2024 fel dyddiad amodol ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.

6.3.2 Yn hyn o beth, mae'r ymgynghoriad ofynnol gyda staff a gyflogir gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, fel y nodir gan Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (fel y'u diwygiwyd 2014), yn cael ei gynnal ar hyn o bryd.

6.3.3 Yng ngoleuni'r ffaith bydd staff y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn trosglwyddo ar y telerau ac amodau cyfredol, ni ragwelir y bydd y trosglwyddiad arfaethedig y staff o un corff cyhoeddus i'r llall yn profi'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â llawer o drosglwyddiadau TUPE ac felly nid yw'n cael ei ystyried yn rhwystr posibl i drosglwyddo swyddogaethau ar 1 Gorffennaf, 2024.

6.3.4 Ymhellach, mae swydd ddisgrifiad ar gyfer rôl Prif Weithredwr y Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi'i ddrafftio (gweler **Atodiad 2**) - mae ei gynnwys yn seiliedig ar swydd disgrifiad ar gyfer rôl gyfatebol yn rhanbarth De-ddwyrain Cymru.

6.3.5 Atodir copi o swydd ddisgrifiad presennol y Cyfarwyddwr Portffolio'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (gweler **Atodiad 3**) a bydd yr Aelodau'n nodi bod aliniad sylweddol rhwng y ddau swydd ddisgrifiad.

6.3.6 Ar y sail hon ac yn unol â chanllawiau ac ymarfer TUPE, cynghorir y dylid penodi Alwen Williams, fel deiliad presennol y swydd o fewn y Bwrdd Uchelgais Economaidd, i swydd Prif Weithredwr y CBC ar sail barhaol o'r 1 Gorffennaf, 2024 (yn amodol ar gwblhau ymgynghoriad TUPE gyda'r holl staff).

## 7. GOBLYGIADAU ARIANNOL

7.1 Bydd costau sy'n gysylltiedig â throsglwyddo swyddogaethau i'r CBC yn gysylltiedig yn bennaf ag amser swyddogion, gwariant cyfreithiol ac ariannol. Bydd cyllid yn cael ei dynnu o gyllidebau presennol y CBC a'r Bwrdd Uchelgais. Bydd cymorth Cyfreithiol, Adnoddau Dynol, Cyllid, Technoleg Gwybodaeth a Gwasanaethau Democrataidd yn cael ei ddarparu drwy adnoddau Cyngor Gwynedd.

## 8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

8.1. Mae'r adroddiad yma'n nodi ar lefel uchel yr hyn a gynigir.

8.2. Mae'r Cynllun Twf yn bartneriaeth ffurfiol rhwng Llywodraethau'r DU a Chymru a'r 6 awdurdod cyfansoddol. Mae'n seiliedig ar bortffolio ac mae cyllid yn cael ei dynnu i lawr drwy lythyr cyllido blynyddol ffurfiol sy'n gytundeb grant a wnaed gan yr awdurdod lletya ar ran y 10 partner arwyddedig i Gytundeb Llywodraethu 2 ond yn bennaf y 6 Cyngor Cyfansoddol. Mae rhyddhau cyllid ar gyfer unrhyw gyfnod yn amodol ar berfformiad gweithrediad y Cynllun Twf a gall y Llywodraethau ei ddal yn ôl.

8.3. Mae nifer o faterion llywodraethu a chyfreithiol wrth wraidd y prosiect hwn. Mae'r rhain wedi'u hamlygu yn y tabl uchod. Mae yna hefyd risgiau y bydd angen eu rheoli a'u datrys yn ogystal â chydsyniadau allweddol er mwyn gweithredu trosglwyddiad a'r amserlen. Mae yna ddibyniaethau wedi'u hymgorffori yn y rhaglen, sy'n golygu, er y gellir cyflawni elfennau i hwyluso cynnydd, bydd angen penderfyniadau neu gymeradwyaethau allweddol er mwyn caniatáu cynnydd.

9. ARGYMHELLION

9.1. Bod Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn:

i. nodi'r diweddariad mewn perthynas â chynnydd ac amserlen ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau i'r CBC.

ii. cytuno i ymestyn secondiad rhan-amser Alwen Williams i rôl Prif Weithredwr y CBC hyd at ddiwedd Mehefin 2024.

iii. penodi Alwen Williams i swydd Prif Weithredwr y CBC o 1 Gorffennaf, 2024 (yn amodol ar gwblhau ymgynghoriad TUPE gyda holl staff y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru).

---

ATODIADAU:

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Diweddariad cynnydd ar sefydlu a gweithredu dyletswyddau statudol y CBC y Gogledd |
| Atodiad 2 | Swydd Ddisgrifiad drafft ar gyfer rôl Prif Weithredwr Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd |
| Atodiad 3 | Swydd Ddisgrifiad cyfredol ar gyfer Cyfarwyddwr Portffolio'r Bwrdd Uchelgais Economaidd |

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Mae trosglwyddo'r Cynllun Twf i'r CBC yn fater sydd wedi'i gadw i'r Cynghorau i'w benderfynu. Fel mae'r adroddiad yn amlinellu, mae angen penderfyniadau allweddol i alluogi'r broses hon i symud ymlaen. Bydd y rhain yn cynnwys y Cyngor, partneriaid addysgol a'r ddwy lywodraeth. Er bod cytundeb mewn egwyddor bydd hyn yn gofyn am lawer o waith manwl ar draws nifer o feysydd. O ran y CBC, bydd angen iddo yn gyfochrog gyfrannu at y broses hon a sefydlu'r trefniadau llywodraethu a gweinyddol mewnol angenrheidiol i hwyluso'r trosglwyddiad i mewn. Bydd angen dod â'r trafodaethau ar y model craffu arfaethedig hefyd i aeddfedrwydd fel rhan o'r elfen hon.

Rwy'n croesawu'r bwriad i greu tîm prosiect amlddisgyblaethol i arwain ar y mater hwn. Bydd angen cefnogaeth gyfreithiol agos, gan dynnu ar adnoddau mewnol ac allanol. O ystyried bod Uchelgais Gogledd Cymru yn seiliedig ar strwythur partneriaeth, bydd y gwaith yn cynnwys cyswllt agos â'r holl bartneriaid i ddod i gytundeb ar agweddau allweddol ar y model arfaethedig. Mae'r gwaith cychwynnol

o amgylch y broses hon eisoes ar y gweill ac mae'r elfennau allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y mewnbwn a'r cyngor hwn."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir a byddaf yn cynorthwyo gyda'r gwaith o wireddu'r prosiect hwn fel bo'r angen. Nid oes gennyf sylwadau pellach i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol."

# ATODIAD 1

**CYNLLUN TRAFNIDIAETH RANBARTHOL (RTP)**

Fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021, un o swyddogaethau statudol Cyd-bwyllgor Corfforedig yw datblygu Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol ar gyfer ei ardal.

Yn dilyn cyflwyno'r Cynllun Gweithredu, pwrpas yr Achos dros y Newid yw gosod allan nodau ac amcanion yr RTP ac adnabod materion allweddol, yr heriau a'r cyfleoedd dylai'r cynllun eu hystyried i arwain ar ddatblygiad rhwydwaith trafnidiaeth integredig ar gyfer Gogledd Cymru. Mae'n cymryd i ystyriaeth tystiolaeth ac argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru tra hefyd yn ystyried sut y gall Gogledd Cymru gefnogi'r gwaith o gyflawni Llwybr Newydd - Strategaeth Trafnidiaeth Cymru yn ogystal â pholisïau a strategaethau lleol.

Gan gynnwys y 6 arweinydd trafnidiaeth a Thrafnidiaeth Cymru, mae gwaith wedi'i ganolbwyntio ar ddrafftio'r Achos dros y Newid i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ddechrau mis Mawrth. Mae gosod yr amcanion cywir yn allweddol gan y byddant yn cael eu defnyddio i sgorio a blaenoriaethu prosiectau a rhaglenni'r dyfodol unwaith y bydd yr RTP wedi'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

Yn dilyn cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru, rhagwelir y bydd yr Asesiad Llesiant Integredig terfynol a'r Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol yn cael ei gyhoeddi ddiwedd Haf 2024.

**PARTH BUDDSODDI**

Cyhoeddwyd yn Natganiad Hydref 2023 Llywodraeth y DU bod Sir y Fflint a Wrecsam wedi'u dynodi fel Parth Buddsoddi. Nododd y cyhoeddiad y byddai'r Parthau Buddsoddi yng Nghymru yn cael eu goruchwylio gan y CBC perthnasol. Mae'r CBC bellach yn gweithio gyda'r ddwy lywodraeth, Wrecsam a Sir y Fflint i fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu cynigion Parthau Buddsoddi.

**CYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL (SDP)**

Er mwyn datblygu'r SDP ar gyfer Gogledd Cymru, mae cyfarfodydd ar y gweill gydag arweinwyr cynllunio allweddol o fewn llywodraeth leol ledled Gogledd Cymru. Carreg filltir allweddol fydd cyflwyno'r Cytundeb Cyflawni (DA) i Lywodraeth Cymru tuag at ddiwedd 2024 gyda phob CBC yn paratoi Cytundeb Cyflawni ar ddechrau'r broses o baratoi'r cynllun. Mae'r Cytundeb Cyflawni yn cynnwys dwy ran:

- Amserlen ar gyfer paratoi SDP
- Cynllun Cynnwys y Gymuned (CIS)

Mae'r Cytundeb Cyflawni yn ddogfen bwysig gan ei bod yn nodi'r amserlen ar gyfer paratoi cynlluniau ac yn nodi pwy all gymryd rhan yn y broses, ar ba gam a'r dulliau ymgynghori. Mae hefyd yn esbonio sut y bydd ymatebion i ymgynghoriadau ar y cynllun yn cael eu hystyried.

**CBC - DYLETSWYDDAU A SWYDDOGAETH STATUDOL**

**Safonau'r Gymraeg**

Fel gyda phob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, bydd yn ofynnol i'r 4 CBC gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (Rheoliadau Rhif 1). Mae'r rheoliadau hyn yn awdurdodi Comisiynydd y Gymraeg i gyhoeddi hysbysiadau cydymffurfio sy'n nodi'r dyletswyddau mae'n rhaid i CBC gydymffurfio â hwy. Er mwyn cychwyn y broses cydymffurfio, mae holiadur (sy'n cwmpasu polisïau staff, cyfryngau cymdeithasol, papurau pwyllgorau, cyfarfodydd pwyllgor ac ati) wedi'i gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg. Yna byddant yn paratoi Hysbysiad Cydymffurfio drafft ac yn ymgynghori â ni ar yr Hysbysiad am 12 wythnos, yn amodol ar unrhyw newidiadau, byddant wedyn yn cyhoeddi Hysbysiad Cydymffurfio terfynol ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Yna bydd gan CBC o leiaf 6 mis i weithredu'r safonau.

**Dyletswyddau a swyddogaethau statudol eraill**

Mae angen i bob corff sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y CBC gydymffurfio â dyletswyddau i gyrff y sector cyhoeddus, sy’n greiddiol i’r ffordd mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio. Felly, mae gwaith ar y gweill i hyrwyddo a hwyluso safonau dyletswyddau gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau.

# ATODIAD 2

## DISGRIFIAD SWYDD DRAFFT

| | |
|---|---|
| **Teitl Swydd:** | Prif Weithredwr – Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd |
| **Cyflog:** | |
| **Adrodd i:** | |
| **Yn atebol i:** | Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd |
| **Lleoliad y swydd:** | Lleoliad y swyddfa ar gyfer y swydd fydd Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, ond bydd gweithio gartref a gwaith maes/lleol yn ofynnol ar gyfer y rôl. Mae gweithio ystwyth yn nodwedd allweddol ac yn ddisgwyliad o'r rôl. |

**Pwrpas Swydd:**

- Bod yn atebol i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd wrth gyflawni ei weledigaeth a'i ddyheadau ar gyfer y rhanbarth – gan integreiddio Cynllun Twf Gogledd Cymru i'r endid rhanbarthol newydd hwn a thrwy hynny, cyflawni un math o lywodraethiant economaidd rhanbarthol.
- Bod yn gyfrifol am ddarparu arweinyddiaeth i dîm Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd a'r holl weithwyr, gan fynd i'r afael â materion staff ac adnoddau eraill sydd eu hangen i ddarparu swyddogaethau a gwasanaethau'n gost-effeithiol ac o ansawdd uchel, yn ogystal ag anghenion y rhanbarth.
- Gweithredu, cynnull a darparu gwasanaethau a swyddogaeth mewn amgylchedd llywodraethiant aml-lefel newydd, gan adlewyrchu'r angen i weithio'r effeithiol ar draws haenau llywodraeth leol, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
- Datblygu a gweithredu strategaeth, polisïau a phrosesau i sicrhau bod y sefydliad yn cyflawni'r nodau a bennwyd gan y Cyd-bwyllgor fel endid cyfreithiol a chorfforedig newydd.
- Sicrhau trosolwg ar drosglwyddiad yr adnoddau angenrheidiol ar gyfer cyflanwi Cynllun Twf Gogledd Cymru i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) newydd, gan sicrhau bod holl ddyletswyddau'r Cynllun Twf yn cael eu cyflawni ac yn cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
- I ddatblygu dau brif ffocws y CBC mewn perthynas â (cyflawni cydymffurfiaeth â'i ddyletswyddau corfforedig cychwynnol ochr yn ochr â gweithredu a chyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru.
- Cynorthwyo Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd i ddatgloi cyllid llywodraeth a buddsoddiadau eraill ar gyfer ategu ac ychwanegu gwerth at raglenni ariannu a buddsoddi presennol.
- Datblygu perthynas waith effeithiol gydag Aelodau Etholedig i wireddu gweledigaeth, polisïau a rhaglenni'r Cyd-bwyllgor ar gyfer model integredig o fuddsoddiad a gweithgaredd rhanbarthol, fel yr adlewyrchir yn y cynllun corfforedig a'r fframwaith cyllidebol.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid a sicrhau ymgysylltu rhagweithiol gyda phartneriaid awdurdodau lleol, partneriaid strategol a sefydliadau eraill i wireddu cyd-ddyheadau ar gyfer y rhanbarth.

| Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau: |
| --- |
| • Bod yn atebol i'r Cyd-bwyllgor a gweithredu fel prif gynghorydd iddo, gan roi arweiniad clir i Aelodau Etholedig wrth lunio a chyflwyno cynllun corfforedig o fewn y fframwaith cyllidebol y cytunwyd arno.<br>• Gweithredu fel Prif Weithredwr y sefydliad, gan ganolbwyntio ar faterion o arwyddocâd strategol, ac arwain a rheoli'r berthynas â rhanddeiliaid a phartneriaid mewnol ac allanol.<br>• Hyrwyddo proffil Rhanbarth Gogledd Cymru yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.<br>• Arwain y sefydliad drwy gyfnodau o newid sylweddol, gan sicrhau gweithio effeithiol ar draws y sefydliad a chyda phartneriaid.<br>• I weithio mewn partneriaeth gydag uwch swyddogion o fewn y sefydliad, yn ogystal ag uwch swyddogion o fewn yr Awdurdodau Lleol a gynrychiolir yn y CBC, i dyfu a chryfhau'r sefydliad a'i wneud yn gynaliadwy.<br>• Arwain y Tîm Rheoli Corfforedig gan alluogi blaenoriaethu effeithiol o adnoddau a'r rhaglen, a gyrru ymlaen â darparu gwasanaethau o safon sy'n cwrdd ag anghenion rhanddeiliaid, partneriaid, partneriaid Awdurdod Lleol, dinasyddion, cymunedau a chwsmeriaid.<br>• I gydlynu rheolaeth y sefydliad o adnoddau allweddol—adnoddau dynol, ariannol, gwybodaeth ac asedau—i sicrhau effeithlonrwydd a gwerth am arian.<br>• Gweithio gyda Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro penodedig y Cyd-bwyllgor i baratoi cyllideb flynyddol y sefydliad, dadansoddi'r risg ynghlwm â buddsoddiadau'r sefydliad, a chynghori'r Cyd-bwyllgor parthed y risg a'r enillion o fuddsoddiadau.<br>• Penodi neu gefnogi penodi uwch reolwyr o fewn y sefydliad yn unol â gofynion polisi.<br>• Gosod ac adolygu amcanion a safonau perfformiad ar gyfer Tîm Rheoli'r sefydliad.<br>• Sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer llywodraethiant corfforedig effeithiol o'r sefydliad a chyfreithlondeb, priodoldeb, uniondeb, atebolrwydd priodol, a chraffu ar brosesau o wneud penderfyniadau.<br>• Sicrhau bod trefniadau yn eu lle i gyflawni amcanion y sefydliad a chyflawni gwelliant parhaus a chynaliadwy.<br>• I ddangos ymrwymiad agored i fynd ati i ddathlu amrywiaeth gyfoethog y rhanbarth, gan sicrhau cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol.<br>• I ymgymryd â rôl swyddog cyffredinol gyda chyfrifoldeb bod y sefydliad yn bodloni'r holl ofynion cyfreithiol mewn perthynas â rheoli iechyd a diogelwch.<br>• I ymgymryd â rôl lysgenhadol ar ran gweithwyr y sefydliad. |

# ATODIAD 3

## DISGRIFIAD SWYDD CYFREDOL AR GYFER Y CYFARWYDDWR PORTFFOLIO

| | |
|---|---|
| **Teitl Swydd:** | Cyfarwyddwr Portffolio |
| **Cyflog:** | |
| **Adrodd i:** | Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd (Materion cyflogaeth)<br>Prif Weithredwr Arweiniol (Perfformiad) |
| **Yn atebol i:** | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| **Lleoliad y swydd:** | Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno |

**Pwrpas Swydd:**

- Arwain tîm cydweithredol o gynrychiolwyr y partneriaid allweddol o fewn y Bwrdd Uchelgais Economaidd i gyflawni ei Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf ar gyfer Gogledd Cymru.
- Arwain y rhaglen a gytunir arno gan y Bwrdd Uchelgais er mwyn cyflawni twf economaidd a datgloi cyllid gan y llywodraeth.
- Datblygu a chynnal perthynas effeithiol gyda'r holl randdeiliaid o fewn Gogledd Cymru , Cymru a'r DU.

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:**

Bydd unrhyw gyfeiriad isod at y Bwrdd Uchelgais Economaidd hefyd yn cyfeirio at unrhyw Is-Fwrdd a sefydlir ganddo.

- Bod yn atebol i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru am ddatblygiad a gwireddu ei Weledigaeth Twf, gan ddarparu cyngor a chyfeiriad i'r Bwrdd er mwyn uchafu'r potensial i gyflawni twf economaidd cynaliadwy a chynhwysol yng Ngogledd Cymru.
- Darparu cyngor a chyfeiriad i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ar strategaethau allweddol i gefnogi'r uchod, yn benodol ym meysydd trafnidiaeth, sgiliau a chyflogaeth, datblygu economaidd a thwf sectorau, isadeiledd digidol a chynllunio defnydd tir.
- Cydgordio datblygiad a gwireddu'r Cynllun Twf ar gyfer Gogledd Cymru.
- Bod yn atebol am wireddu'r rhaglenni a'r cynlluniau sydd yn cael eu cytuno i fod yn rhan o'r Cynllun Twf.
- Adnabod cyfleoedd i hyrwyddo anghenion a photensial rhanbarth Gogledd Cymru er mwyn dylanwadu ar bolisïau'r Llywodraeth a denu cyllid allanol er mwyn gallu gwireddu'r Weledigaeth Twf a'r Strategaeth.
- Bod yn atebol am wireddu'r rhaglenni a'r cynlluniau fydd tu allan i'r Cynllun Twf er mwyn gwireddu'r weledigaeth a'r strategaeth ehangach.
- Gweithio gyda phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus a'r trydydd sector er mwyn uchafu budd y Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf i sectorau sylfaenol y rhanbarth a'r cymunedau.
- Darparu pwynt cyswllt uwch swyddog ar gyfer y cyrff allanol hynny sy'n ceisio ymgysylltu gyda'r Bwrdd Uchelgais, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Partneriaethau Menter Leol ac awdurdodau lleol eraill tu hwnt i'r rhanbarth.

- Sicrhau fod materion sydd o fewn maes llafur y Bwrdd Uchelgais Economaidd (fel y'i nodir yn y Cytundeb Llywodraethu rhwng y 6 awdurdod lleol) yn cael eu cyfeirio ato yn amserol a gyda'r holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn iddo fedru dod i benderfyniad priodol.
- Hyrwyddo dull cydweithredol a chyd-gysylltiedig o weithio ymysg partneriaid allweddol yn y rhanbarth er mwyn taclo materion economaidd allweddol a manteisio ar gyfleoedd.
- Gweithio'n agos gyda sectorau busnes yn y rhanbarth er mwyn adnabod cyfleoedd ar gyfer sicrhau twf economaidd.
- Cyd weithio mewn partneriaeth gyda swyddogion allweddol o Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU er mwyn gwireddu blaenoriaethau'r Bwrdd Uchelgais Economaidd.
- Arwain a darparu cyfeiriad i'r Grŵp Gweithredol Cefnogol gan sicrhau eu bod yn gweithio yn unol â'r Cytundeb Llywodraethu ac o fewn fframwaith llywodraethu'r Awdurdod Lletya.
- Rheoli'r Swyddfa Rheoli Portffolio gan sicrhau eu bod yn gweithio yn unol â'r Cytundeb Llywodraethu ac o fewn fframwaith llywodraethu'r Awdurdod Lletya.
- Sicrhau fod gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd gynllun rhaglen gadarn yn cael ei gefnogi gan gynlluniau prosiect cadarn unigol a bod yr adnoddau priodol yn cael eu cyfeirio at y cynlluniau yma, eu bod yn cael eu cyflawni ar amser ac i'r gyllideb gytunedig, gan gyfeirio unrhyw faterion i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd yn ôl yr angen.
- Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau fod yr adnoddau priodol yn cael eu darparu ar gyfer prosiectau a ffrydiau gwaith a gyflawnir gan eraill, gan eu dal yn atebol am gyflawni'r deilliannau priodol yn amserol, ac o fewn y gyllideb.
- Darparu data monitro perfformiad cynhwysfawr i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd.
- Mewn cydweithrediad gyda phartneriaid a'r sector fusnes, darparu dadansoddiadau tueddiadau economaidd a demograffig er mwyn gosod sail i gynllunio hir dymor strategol a blaenoriaethu ymyraethau gan y Bwrdd.
- Sicrhau fod yna gynlluniau prosiect a chofrestr risg yn cael ei gynnal a'i adolygu'n barhaol gan gymryd unrhyw gamau perthnasol sydd eu hangen i leddfu risgiau.
- Gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Lletya, yn benodol felly i lunio cynigion cyllidebol i'w hystyried a'u cytuno gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd gan sicrhau fod yna drefniadau adrodd a rheolaeth ariannol effeithiol i uchafu'r defnydd o adnoddau sydd ar gael.
- Cydgordio'r broses o gymryd penderfyniadau o fewn yr awdurdodau'r bartneriaeth ac asiantaethau eraill y bartneriaeth lle nad yw'r penderfyniadau yn rhan o faes llafur y Bwrdd Uchelgais Economaidd.
- Darparu cyngor a chyfeiriad i unrhyw Is Fwrdd a sefydlir gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd, gan gynnwys comisiynu tasgau neu brosiectau penodol.
- Briffio Arweinyddion, Prif Weithredwyr a phartneriaid allweddol yn barhaus ar yr heriau, cynnydd a materion allweddol.
- Sicrhau fod yna ymgysylltu cynhwysfawr a rhagweithiol gyda rhanddeiliaid allweddol ar draws asiantaethau partneriaethol, awdurdodau lleol , busnesau a sectorau allweddol eraill.
- Sicrhau fod gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd strategaeth gyfathrebu effeithiol fel bod yr holl randdeiliaid yn gallu deall uchelgais a blaenoriaethau'r Bwrdd Uchelgais.

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

22 Mawrth, 2024

| | |
|---|---|
| TEITL: | Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol Gogledd Cymru - Achos dros y Newid drafft |
| AWDUR: | Alwen Williams, Prif Weithredwr dros dro y CBC<br>Catrin Jones, Rheolwr Rhaglen Gweithredu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig |

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno'r 15 amcan allweddol o fewn y Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol ar gyfer Gogledd Cymru - Achos dros y Newid drafft.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Argymell bod y Cyd-bwyllgor yn cytuno i'r 15 amcan o fewn yr Achos dros y Newid drafft fel rhan o Gynllun Trafnidiaeth Ranbarthol Gogledd Cymru.

3. RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Fel y mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae Canllawiau Statudol Cyd-bwyllgor Corfforedig Llywodraeth Cymru a'r Canllawiau i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ar Gynlluniau Trafnidiaeth Ranbarthol Fersiwn 2 yn cyfeirio, un o swyddogaethau statudol Cyd-bwyllgor Corfforedig yw datblygu Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol. Mae'r Achos dros y Newid yn rhan o'r broses o ddatblygu Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol ar gyfer rhanbarth y Gogledd.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Cymeradwywyd Cynllun Gweithredu ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol (RTP) gan y CBC ar 24 Tachwedd, 2023. Mae'r cam nesaf wrth ddatblygu'r RTP yn gofyn am ddatblygu'r Achos dros y Newid - sy'n gosod allan nodau ac amcanion y RTP ac yn adnabod y materion allweddol, heriau a chyfleoedd y dylai'r cynllun eu hystyried wrth ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth integredig ar gyfer Gogledd Cymru. Mae gosod yr amcanion cywir yn allweddol gan y byddant yn rhan o'r broses i sgorio a blaenoriaethu prosiectau a rhaglenni i'r dyfodol ac unwaith mae'r RTP wedi'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Mae'r 15 amcan wedi'u hadnabod i danategu a chefnogi'r Achos dros y Newid a'r RTP.

4.2. Mi fydd RTP Gogledd Cymru yn ystyried tystiolaeth ac argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru tra hefyd yn ystyried sut y gall Gogledd Cymru gefnogi Llwybr Newydd - Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

4.3. Yn dilyn cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru, rhagwelir y bydd y Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol terfynol yn cael ei gyhoeddi ddiwedd yr haf 2025.

4.4. Mae'r canlynol yn darparu'r 15 amcan sy'n sail i broses Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol ar gyfer Gogledd Cymru:

1. Datblygu rhwydwaith trafnidiaeth gwydn, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac effeithlon sy'n cefnogi twf economaidd;
2. Datblygu'r seilwaith a'r gwasanaethau sy'n rhoi dewis i bobl am sut maen nhw'n teithio ar gyfer pob taith;
3. Gwella mynediad cynaliadwy i safleoedd cyflogaeth ac addysgol ac atyniadau twristaidd;
4. Gwella mynediad at wasanaeth allweddol;
5. Annog datgarboneiddio newid diwylliant sy'n gweld pobl sydd â dewis yn teithio drwy ddulliau heblaw am y car preifat;
6. Gwella mynediad i ganol trefi a dinasoedd ar gyfer pob dull cynaliadwy;
7. Lleihau allyriadau gwacáu a di-wacáu o drafnidiaeth;
8. Gwella diogelwch i holl ddefnyddwyr y ffordd;
9. Lleihau'r angen i deithio;
10. Datblygu rhwydwaith trafnidiaeth sy'n darparu gwerth cymdeithasol i gymunedau;
11. Gwneud lles yn ystyriaeth graidd ar draws yr holl brosiectau a rhaglenni trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru;
12. Blaenoriaethu'r iaith a'r diwylliant Cymraeg;
13. Integreiddio cydraddoldeb i bob agwedd ar gynllunio trafnidiaeth;
14. Integreiddio Parth Buddsoddi a'r Porthladd Rhydd fel ystyriaethau rhanbarthol;
15. Adnabod synergeddau rhwng yr RTP a'r SDP.

4.5. Bydd copi llawn o'r Achos dros y Newid drafft yn cael ei gyflwyno i'r CBC mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Bydd costau'n cael eu tynnu o gyllidebau presennol y CBC a gyda chefnogaeth angenrheidiol gan dimau Cyfreithiol a Chyllid Cyngor Gwynedd.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Canllawiau Statudol Cyd-bwyllgorau Corfforedig Llywodraeth Cymru a'r Canllawiau i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ar Gynlluniau Trafnidiaeth Ranbarthol Fersiwn 2 - un o swyddogaethau statudol Cyd-bwyllgor Corfforedig yw datblygu Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol.

PAPUR CEFNDIROL (dogfen Gyfrinachol):

Achos dros y Newid drafft

YMATEB SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro.**

"Unrhyw sylwadau i'w cyflwyno yn y cyfarfod."

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

"Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir o safbwynt priodoldeb ariannol. Disgwyliaf i'r gwaith o ddatblygu'r cynllun gael ei gyflawni o fewn cyllideb y Cyd-bwyllgor Corfforedig."